

Vaughan Gething AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/VG/2319/18

Dr Dai Lloyd AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

10 Gorffennaf 2018

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr ar 30 Mai 2018 yn gofyn am sicrwydd a gwybodaeth ynghylch parodrydd ar gyfer gaeaf 2018/19. Mae fy ymateb i bob un o'r pwyntiau a godwch i'w weld isod.

### **Diweddariad ar argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016.**

Gweler Atodiad A.

### **Pa gamau pellach y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i liniaru'r pwysau ar y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ystod cyfnodau prysur y gaeaf.**

Dylid cydnabod bod sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer gaeaf 2018/19 a bod Llywodraeth Cymru yn dal i'w cefnogi mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ein cyfarfodydd cynllunio tymhorol cenedlaethol sy'n sail i'w cynlluniau tymhorol, a'r rheini'n cynnwys camau i fod yn barod at y gaeaf nesaf.

Cynhaliwyd y digwyddiad ymgysylltu diweddaraf ar wrthsefyll pwysau dros y gaeaf ar 1 Mai 2018 ac roedd dros 90 o gynrychiolwyr o'r gymuned iechyd a gofal cymdeithasol yn bresennol. Roedd y digwyddiad yn gyfle i bob system gofal iechyd lleol fwrw golwg yn ôl ar aeaf 17/18; beth a weithiodd yn dda; beth na wnaeth weithio; a chanfod y blaenoriaethau ar gyfer gaeaf 18/19.

Cynhaliwyd gweithdai hefyd ar gyfer rheoli atgyfeiriadau ambiwlans gan Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn well, rheoli risg drwy'r holl system, cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, creu gwell cysylltiad rhwng capasiti a galw, a gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau.

Bydd Aelodau hefyd yn ymwybodol imi wneud ymrwymiad i werthuso gaeaf 2017/18. Cafodd adolygiad yn dilyn hynny ei drefnu gan Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr GIG

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymru a chadeirydd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, ceisiwyd barn ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan roi sylw i farn gyfun partneriaid allweddol yn y digwyddiad uchod a chanfod y prif flaenoriaethau ar gyfer y gaeaf sydd i ddod.

Cyflwynwyd adroddiad yn gwerthuso gaeaf 2017/18 i Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar Gyfer Gofal Heb ei Drefnu ar 21 Mehefin a bydd hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law. Mae'r gymuned iechyd a gofal cymdeithasol eisoes wedi gweld yr adroddiad a'i gasgliadau er mwyn gallu'i ddefnyddio wrth ddechrau cynllunio, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i roi'r hyn a ddysgwyd ar waith a chyflwyno gwelliannau cynaliadwy.

Mae ein cronfa gofal sylfaenol a'r gronfa gofal integredig wedi parhau i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd a gwell o ateb anghenion iechyd a llesiant pobl drwy ddull integredig a chydweithredol, gan gynnwys rhoi sylw i anghenion gofal heb ei drefnu ac anghenion brys pan na ellid bod wedi atal y rhain.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ar 11 Mehefin gan ganolbwyntio ar ddarparu gofal a chymorth di-dor ar sail 24/7 er mwyn atal yr angen i roi gofal heb ei gynllunio ar gyfer anghenion iechyd a llesiant. Pan fydd anghenion o'r fath yn bodoli, mae'r model yn darparu ar gyfer ateb y rheini yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn, yn y cartref neu mor agos â phosibl at gartref.

Mae Clystyrau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i aeddfedu fel dulliau o gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd, a hynny gan fyrdau iechyd, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau annibynnol ac yn y trydydd sector. Mae potensial y model trawsnewid cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yn dal i esblygu ac yn Atodiad B rwyf wedi atodi'r disgrifiad diweddaraf o'r gwahanol elfennau sy'n rhan ohono er budd y Pwyllgor. Mae'r model hwn yn sail i'r pum blaenoriaeth a fydd yn llywio cynlluniau cyflenwi integredig ar gyfer gaeaf 2018-19.

Fel rhan o drafodaethau contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn 2018/19, cytunwyd y byddai'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau yn cael ei lacio am flwyddyn gyfan er mwyn ysgafnhau'r pwysau gwaith mewn Ymarfer Cyffredinol. Mae proffesiwn y meddygon teulu wedi croesawu hyn ac mae iddo fanteision penodol yn ystod cyfnod y gaeaf. Er bod llawer o waith y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau yn dal i fynd rhagddo, nid oes yn rhaid dychwelyd gwybodaeth ar adegau penodol, ac mae hynny'n cael gwared ar bwysau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried pa ddull y dylid ei ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer gwella ansawdd mewn Ymarfer Cyffredinol.

At hynny, dangosodd y cyfnod diwethaf o bwysau yn ystod y gaeaf pa mor bwysig yw cyfathrebu cadarn rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Roedd Cylchlythyr Iechyd Cymru diweddar (WHC 2018 014 - Safonau Cyfathrebu Cymru Gyfan rhwng Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd) yn cyflwyno nifer o safonau cyfathrebu er mwyn gwella'r ymwneud rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd ac osgoi dyblygu gwaith. Mae hyn yn bwysig i gydweithwyr yn y system iechyd a gofal cymdeithasol, ond mae hefyd yn gwbl hanfodol bod cleifion yn cael eu gweld yn y lle iawn gan y gweithiwr proffesiynol iawn. Datblygwyd y safonau hyn gyda golwg ar leihau'r problemau sy'n codi pan fydd y gwasanaeth o dan y pwysau mwyaf.

At hynny, mae £50 miliwn o gyllid wedi'i roi o'r Gronfa Gofal Integredig yn 2018/19 er mwyn parhau i gefnogi ystod eang o gynlluniau sy'n bodoli'n barod i atal derbyniadau heb fod angen i'r ysbyty, atal derbyniadau i ofal preswyl heb fod hynny'n briodol, atal oedi wrth

ryddhau pobl o'r ysbyty, ac yn y pen draw, i helpu gyda'r broses o integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a thai.

Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys ymrwymiad i gadw'r Gronfa Gofal Integredig ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ganfod yr amcanion a'r blaenoriaethau i'r gronfa yn y dyfodol.

Bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn sicrhau bod partneriaid yn defnyddio cyllidebau a ffrydiau cyllido yn effeithiol, gan gynnwys y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Gofal Sylfaenol, er mwyn cydlynu'r modd y caiff cyllid ei wario a sicrhau'r buddion gorau posibl i ddinasyddion wrth ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

#### Cynllunio ar gyfer gaeaf 2018/19 – y camau nesaf

- Gorffennaf 2018 – Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau cenedlaethol er mwyn adlewyrchu canfyddiadau'r gwerthusiad o'r gaeaf a helpu i gynllunio ar gyfer gaeaf 2018/19.
- Gorffennaf / Awst – Llywodraeth Cymru a Thîm y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu i sefydlu proses werthuso glir er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau'n lleol a sefydlu proses ar gyfer monitro cynnydd.
- Awst – GIG Cymru ac arweinwyr awdurdodau lleol i fynd i weithdy yn trafod eu cynlluniau ar gyfer y gaeaf yn unol â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2018/19.
- Diwedd Awst – GIG Cymru ac awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau cyflenwi integredig ar gyfer y gaeaf i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses sicrwydd.
- Yn yr hydref, Llywodraeth Cymru i gynnal cyfarfodydd integredig ar y gallu i wrthsefyll pwysau dros y gaeaf, a hynny gyda byrddau iechyd, awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, er mwyn helpu i edrych ar sut y mae cynlluniau i wrthsefyll pwysau dros y gaeaf yn cael eu datblygu.
- 14 Medi – Llywodraeth Cymru, Tîm y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu ac Uned Gyflenwi GIG Cymru i roi adborth i sefydliadau ynghylch eu cynlluniau.
- 28 Medi – y cynlluniau cyflenwi terfynol ar gyfer y gaeaf i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru – er y dylid nodi y bydd y cynlluniau ar gyfer y gaeaf yn rhai 'byw' a fydd yn cael eu hadolygu ar sail unrhyw newidiadau yn y galw lleol.
- Medi/Hydfref – GIG Cymru ac Awdurdodau Lleol i fod yn bresennol mewn digwyddiad cenedlaethol ar wrthsefyll pwysau yn ystod y gaeaf, er mwyn paratoi at y gaeaf.
- Canol Rhagfyr – Llywodraeth Cymru i gynnal galwadau integredig gyda Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol er mwyn asesu'r gwaith o gynllunio a gweithredu ar y cyd.
- Canol Ionawr 2019 – Llywodraeth Cymru i gynnal galwadau 'integredig' dilynol gyda Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol.
- Ebrill – Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu i gomisiynu adolygiad o aeaf 2018/19, sef adolygiad a gynhelir gan Lywodraeth Cymru a Thîm y Bwrdd ar y cyd â phartneriaid allweddol, gan gynnwys cyrff proffesiynol.

Er nad yw hyn yn benodol ar gyfer y gaeaf hwn, efallai y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru'n ddiweddar wedi cyhoeddi y bydd yr elfen gyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig wedi cynyddu o £10 miliwn y flwyddyn i £105 miliwn dros dair blynedd er mwyn helpu i ddarparu gofal mwy cydgysylltiedig yn agosach at gartref, ynghyd â helpu i adeiladu tai a fydd yn galluogi pobl i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau'u hunain. Y nod yw creu tai ar raddfa fwy sy'n integreiddio gofal cymdeithasol yn ogystal â dulliau arloesol eraill. Mae'r cyllid cyfalaf hwn yn ychwanegol at yr elfen referniw o £50m yn y Gronfa a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni. Bydd y gronfa yn cefnogi amcanion 'Cymru Iachach', sy'n cydnabod y cyfraniad o bwys y gall tai addas ei wneud wrth ddod â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn nes at gymunedau.

Gall tai addas helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth a rhoi'r amgylchedd iawn i bobl sy'n gadael yr ysbyty – gan leihau oedi wrth ryddhau cleifion. Gall hyn hefyd helpu pobl hŷn, pobl sydd â dementia neu anabledau, neu bobl sydd ag anghenion cymhleth, gan alluogi gwasanaethau cymdeithasol i roi gofal mwy effeithiol iddynt. Gall y cyfan helpu'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol i weithio'n fwy effeithiol.

### **Effaith mentrau penodol Llywodraeth Cymru, fel yr arian ychwanegol ar gyfer y byrddau iechyd i leihau amseroedd aros rhwng atgyfeiriadau a thriniaeth, ac effaith hyn wrth ymdrin â phwysau gaeaf.**

Ar gyfer 2017/18, buddsoddodd Llywodraeth Cymru yn drwm er mwyn helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau diogel a phroffesiynol dros y gaeaf a'r tu hwnt. Roedd hyn yn cynnwys:

- bron i £43m yn 2017/18 drwy'r Gronfa Gofal Sylfaenol er mwyn helpu gwasanaethau gofal sylfaenol i ddarparu mwy o wasanaethau iechyd lleol yn y cartref neu'n nes at gartref, gan ymyrryd yn gynnar i osgoi problemau a allai arwain at dderbyn pobl i'r ysbyty i gael gofal heb ei gynllunio
- £60m drwy'r Gronfa Gofal Integredig yn 2017/18 i helpu i roi gofal a chymorth yn nes at gartref ac atal derbyniadau heb fod angen i'r ysbyty, ynghyd â mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal – gan wella llif cleifion drwy'r system.
- £19 miliwn yn ychwanegol o gyllid rheolaidd i helpu i reoli effaith y cynnydd i'r Cyflog Byw Cenedlaethol er mwyn gwella amodau'r gweithlu a chreu mwy o sefydlogrwydd a gwydnwch yn y sector gofal cartref.
- Ym mis Awst 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru £50 miliwn yn ychwanegol i GIG Cymru ar gyfer pwysau'r gaeaf er mwyn helpu i gydbwyso'r modd y gwneir gwaith dewisol a gwaith brys a gwella amseroedd aros erbyn diwedd mis Mawrth 2018, gan leihau nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos, y rheini sy'n aros dros 8 wythnos am ddiagnosteg a'r rheini sy'n aros dros 14 wythnos am wasanaethau therapi yn enwedig. Golygodd y buddsoddiad hwn bod Byrddau Iechyd Lleol wedi gallu cynyddu capasiti eu hadnoddau mewnol (gan gynnwys defnyddio darparwyr allanol annibynnol) a chyfeirio cleifion at ddarparwyr eraill yng Nghymru a GIG Lloegr er mwyn lleihau'r amser y mae cleifion yn ei aros am lawdriniaethau.

O ganlyniad, o'u cymharu â ffigurau mis Mawrth 2017, roedd ffigurau mis Mawrth 2018 ar gyfer amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, amseroedd aros am ddiagnosteg ac amseroedd aros am therapi wedi gwella 2% o ran aros 36 wythnos drwy Gymru gyfan, wedi gwella 69% o ran aros wyth wythnos am ddiagnosteg, ac wedi gwella 90% o ran aros 14 wythnos am therapi.

Er gwaethaf y gwelliant hwn yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth tri Bwrdd Iechyd Lleol gyflawni'r ymrwymadau a roddwyd pan gafodd y £50m ei roi. Y rhain oedd Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr. O ganlyniad, ni wnaeth y Byrddau Iechyd Lleol hyn gael y symiau llawn a neilltuwyd (sef £7.4 miliwn, £2.9 miliwn a £3.13 miliwn yn y drefn honno), sef cyfanswm o £13.43 miliwn.

- darparwyd bron i £700,000 i Wasanaethau Ambiwylans Cymru i gynyddu nifer y clinigwyr yn eu canolfannau cyswllt o 18 i 30. Cynyddodd hyn eu capasiti i drin cleifion yn ddiogel dros y ffôn neu i'w cyfeirio i wasanaethau eraill, gan arwain at ostyngiad sylweddol (tua 10%) yn y teithiau diangen mewn ambiwlans i'r ysbyty.
- Er mwyn cydnabod rhywfaint o'r cynnydd sylweddol mewn galw, yn gynnar ym mis Ionawr cytunais ar £10m ychwanegol i helpu gwasanaethau rheng flaen i gymryd camau ar unwaith i wella gofal i gleifion. Bu gofyn i bob ardal Bwrdd Iechyd Lleol ddatblygu cynllun amlinellol a hwnnw'n cynnwys manylion ynghylch sut y byddent yn targedu eu dyraniadau a gweithiodd tîm y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu gyda'r gwasanaethau i ganfod sut yr oedd yr arian ychwanegol yn cael ei wario, ynghyd ag edrych ar effaith y gwariant hwnnw wrth gyflwyno gwelliannau a rhoi gwerth am arian. Er mwyn helpu gyda'r broses hon, datblygodd y tîm dempled safonol y gallai gwasanaethau ei ddefnyddio i roi gwybodaeth.

Roedd y wybodaeth a roddwyd yn cyfeirio at 159 o wahanol gynlluniau, a'r rheini'n canolbwyntio'n bennaf ar ofal eilaidd ac adnoddau a oedd yn gwella gwasanaethau a fodolai'n barod. Dyma enghreifftiau o sut y cafodd y cyllid hwn ei ddefnyddio:

- Ehangodd Cwm Taf oriau agor practisau meddygon teulu ar benwythnosau er mwyn helpu'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau;
- Cynyddodd Hywel Dda adnoddau therapi, gweithwyr cymdeithasol ac ymgynghorwyr er mwyn helpu i ryddhau cleifion dros y penwythnos;
- comisiynodd Caerdydd a'r Fro welyau adsefydlu ychwanegol er mwyn helpu cleifion gyda'u hanghenion gofal parhaus.

Bydd yr hyn a ddysgir o'r gwerthusiad hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu gyda phrosesau cynllunio ac arferion yn y dyfodol o ran gwrthsefyll pwysau yn y gaeaf a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

- Ar 13 Chwefror, cyhoeddais hefyd £10 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn rhoi sylw i'w blaenoriaethau mwyaf, a'r rheini wedi'u canfod ar ôl trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Targedwyd yr adnoddau ychwanegol ar gyfer darparu pecynnau gofal cartref; gwasanaethau gofal a thrwsio er mwyn gallu rhyddhau pobl yn gynt o'r ysbyty a'u helpu i fod yn annibynnol gartref; a gofal preswyl tymor byr a llai dwys. Rydym wrthi'n casglu gwybodaeth gan awdurdodau lleol ynghylch nifer y pecynnau, y gwasanaethau a'r llefydd gofal tymor byr a ddefnyddiwyd, ond mae'r dangosyddion cynnar yn awgrymu bod hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth alluogi mwy o bobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, osgoi derbyniadau i'r ysbyty a chartrefi gofal, a hwyluso rhyddhau pobl o'r ysbyty.

#### "Fy Adran Damweiniau ac Achosion Brys i":

Ar y cyd â'r GIG, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu adnodd ar y we, 'Fy Adran Damweiniau ac Achosion Brys i'. Adnodd yw hwn sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd ynghylch faint y gallant ddisgwyl ei aros am ddiagnosis, am driniaeth, ac i gael eu

rhyddhau, ynghyd â mwy o wybodaeth am eu hadran damweiniau ac achosion brys leol a'r Uned Mân Anafiadau leol. Y prif nod oedd 'helpu' defnyddwyr i ddewis yn ddoeth drwy ddefnyddio gwirwyr symptomau a gwneud y dewisiadau iawn am y gwasanaeth i'w ddefnyddio ar sail eu hanghenion.

Cyflwynwyd yr adnodd ym mis Tachwedd 2017 ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal gwerthusiad cynnar. Rhoddwyd croeso i'r syniad a dywedodd bron i 80% o'r rheini a ymatebodd y byddent yn defnyddio'r wefan yn y dyfodol. Dywedodd nifer o bobl iddynt gael rhywfaint o anawsterau wrth ddefnyddio'r wefan ac y byddent yn fwy cyfforddus yn defnyddio 'apiau' ar ffôn. Mae'r gwerthusiad wrthi'n cael ei ystyried ac mae cynlluniau i wella'r adnodd yn cael eu datblygu.

Yn ogystal â'r uchod, ac ystyried y pwysau a wynebwyd yn 2017/18, a oedd yn cynnwys ambell gyfnod prysur iawn o ran galw, a rhai o'r rheini y tu hwnt i'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl, blaenoriaeth er mwyn gwella gwydnwch a rheoli risg yn effeithiol yn 2018/19 yw'r angen i wella rheolaeth weithredol a grymuso rheolaeth ysbyty sy'n canolbwyntio ar elfennau clinigol.

Rhaid i'r pwyslais fod ar gydweithio a gweithredu'n gynnar drwy'r holl system pan fydd uwchgyfeirio'n digwydd, er mwyn gallu ysgafnhau pwysau'n gyflym a gwella llif cleifion. Mae rhai byrddau iechyd a'u partneriaid wedi cyflwyno ymyriadau neu gamau lleol sy'n canolbwyntio ar adegau penodol, fel 'Torri'r Cylch' yn syth ar ôl cyfnod gwyliau'r Nadolig yn enwedig.

Mae 'Torri'r Cylch' yn golygu canolbwyntio ar y camau a fydd yn cael yr effaith fwyaf; gweithredu fformat uwchgyfeirio Efydd, Arian ac Aur; gohirio'r rhan fwyaf o gyfarfodydd nad ydynt yn rhai brys; cynyddu cyfraniad timau gweithredol, rheoli a chlinigol at lwybr y claf; dull aml-ddisgyblaethol sy'n cynnwys gofal cymunedol a gofal cymdeithasol; a datblygu amcanion clir a mabwysiadu dull system gyfan o sicrhau bod llif cleifion yn fater sy'n gyfrifoldeb i bawb.

Mae sefydliadau wedi adolygu sut y maent wedi gweithredu eu hymyriadau llwyddiannus dros gyfnod y gaeaf gan gynnwys cydweithio'n well, gwneud penderfyniadau prydlon, a chryfhau cefnogaeth glinigol yn ystod cyfnodau o bwysau ac uwchgyfeirio trwm. Bydd disgwyl i sefydliadau ystyried y gwersi a ddysgwyl a defnyddio hynny i wella'r modd y gallant ymateb i bwysau tebyg yn y dyfodol a gwella profiadau a chanlyniadau i'r claf.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services

## Atodiad A

### **Diweddariad Llywodraeth Cymru am yr argymhellion a wnaed yn Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2016: Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 (ac eithrio'r argymhellion a wrthodwyd).**

**Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog, fel mater o flaenoriaeth, ganolbwyntio ar integreiddio'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol yn well, o ran sut y mae'r sectorau hynny'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Rhaid i'r GIG, y sector gofal cymdeithasol a'r sector annibynnol fod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn.**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu ar gyfer sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a hynny fel un o gyfres o gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae'r byrddau hyn yn dod â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd er mwyn gwella canlyniadau i bobl a'u llesiant. Mae gofyn i bartneriaid asesu anghenion gofal a chymorth eu poblogaeth a chreu cynllun gyda'r nod o wella pa mor effeithlon ac effeithiol yw'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod yn rhaid i fyrddau partneriaeth lleol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys pobl sydd ag anghenion cymhleth, ac rydym yn dal i'w helpu i wneud hyn.

Mae byrddau partneriaeth lleol yn goruchwyllo'r Gronfa Gofal Integredig a sefydlwyd i ddatblygu modelau newydd ac arloesol ar gyfer gweithio'n integredig. Mae £50 miliwn mewn cyllid refeniw a £30 miliwn mewn cyllid cyfalaf wedi'i neilltuo yn 2018-19 ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i barhau i ddarparu'r gronfa bwysig hon.

Roedd gofyn i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cyllidebau cyfun ar gyfer darparu llety gofal cartref i oedolion o fis Ebrill 2018. Bydd y cyllidebau cyfun hyn yn gymorth i gomisiynu'n integredig, gan alluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ganolbwyntio ar wella ansawdd ynghyd â sicrhau gwell gwerth am arian.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn creu disgwyliad newydd ar gyfer cynllunio'n integredig a hynny ar sail anghenion y boblogaeth, gan fynd y tu hwnt i ffiniau gwasanaethau iechyd traddodiadol drwy gynnwys meysydd fel tai ac addysg. Pan fydd y byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ill dau'n asesu anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr, rhaid iddynt hefyd ganfod y canlynol:

- i ba raddau nad yw'r anghenion hynny'n cael eu hateb;
- ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i ateb yr anghenion hynny;
- ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau ataliol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf; a
- sut y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i sefydliadau'r GIG barhau i ddatblygu a chryfhau eu perthynas â phartneriaid allweddol, y trydydd sector, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gofal o ansawdd da i gleifion.

Mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn allweddol er mwyn integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal yng Nghymru. Mae ein trefniadau ar gyfer cynllunio yn rhoi cryn bwyslais ar sicrhau bod cynlluniau wedi'u creu i ddarparu gwasanaethau yn lleol ac ar y cyd i gleifion yng Nghymru, ac mae proses i graffu ar hynny'n bodoli hefyd. Mae disgwyl i fyrddau iechyd ymwneud yn rheolaidd â'r sector gofal cymdeithasol a'r sector annibynnol wrth ddatblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Pan na fydd modd i sefydliadau greu Cynllun Tymor Canolig Integredig sydd wedi'i gymeradwyo, byddant yn darparu cynlluniau gweithredu blynyddol i helpu i wella pethau'n gyflym yn eu sefydliadau, gan gynnwys y modd y maent yn ymwneud â sectorau eraill.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ar 11 Mehefin, ac mae'r model trawsnewidiol cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a gofal cymunedol yn sail i hwn hefyd. Mae'r Cynllun yn cyflwyno model ar gyfer darparu gofal a chymorth di-dor ar sail 24/7 er mwyn atal yr angen i roi gofal heb ei gynllunio ar gyfer anghenion iechyd a llesiant. Pan fydd anghenion o'r fath yn bodoli, mae'r model yn darparu ar gyfer ateb y rheini yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn, yn y cartref neu mor agos â phosibl at gartref. Mae Clystyrau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i aeddfedu fel dulliau o gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd, a hynny gan fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau annibynnol ac yn y trydydd sector.

## **Argymhelliad 2. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet edrych ar yr opsiynau ar gyfer creu trefniadau gweithio mwy effeithiol rhwng meddygon teulu a fferyllwyr er mwyn osgoi cystadleuaeth wrth roi cynlluniau ataliol cenedlaethol ar waith, fel brechu rhag ffliw.**

Ym mis Gorffennaf 2017, llofnodwyd cytundeb gan bwyllgor meddygon teulu BMA Cymru Wales a Fferylliaeth Gymunedol Cymru er mwyn annog cydweithio, gyda'r nod o gynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu rhag ffliw yn y GIG.

Mae'r 'Memorandwm Dealltwriaeth' wedi'i ddatblygu er mwyn cynyddu nifer y cleifion cymwys sy'n defnyddio gwasanaethau brechu rhag ffliw presennol y GIG ac annog dull o gydweithio, lle bydd meddygon teulu a fferyllwyr yn cydweithio i sicrhau bod pawb sy'n gymwys i gael eu brechu rhag ffliw yn cael eu brechu, gan ysgafnhau'r pwysau ar bractisau meddygon teulu ar yr un pryd.

Mae'r nifer a gafodd eu brechu rhag ffliw gan y GIG mewn fferyllfeydd wedi cynyddu 34% y llynedd, i fymryn dros 36,000 o frechiadau. Mae hyn yn ddatblygiad ar gynydd dros dymhorau blaenorol. Bydd y nifer sy'n cael eu brechu'n parhau i gael ei fonitro yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod mwy o unigolion sy'n wynebu risg yn gallu cael eu brechu.



Gofynnwyd i fyrddau iechyd sicrhau bod Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau o Gleifion yn cael eu cyhoeddi'n brydlon yr haf hwn er mwyn galluogi fferyllwyr cymunedol i gynnig brechiadau rhag y fflw drwy'r GIG mor gynnar â phosib yn y tymor.

O 2018-19, bydd yr holl staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrso i oedolion yng Nghymru yn gymwys i gael eu brechu rhag fflw yn rhad ac am ddim, heb fod unrhyw gostau iddynt hwy eu hunain nac i'w cyflogwyr, a hynny mewn fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig gwasanaeth brechu rhag fflw y GIG. Wrth benderfynu cynnig brechiadau drwy fferyllfeydd, roeddwn yn ymwybodol o'r angen i beidio ag ychwanegu at faich gwaith meddygon teulu yn ystod y gaeaf.

Tan hyn, cyflogwyr unigol fu'n gyfrifol am gynnig y brechiad rhag fflw i staff gofal cymdeithasol. Er gwaethaf y ffaith bod cyfraddau brechu rhag fflw yn uchel ymhlith preswylwyr, gall fflw ledaenu'n rhwydd mewn cartrefi gofal a gall staff ei drosglwyddo i breswylwyr pan fydd ganddynt symptomau ysgafn neu hyd yn oed ddim symptomau o gwbl. Gwelwyd bod brechu staff yn effeithiol wrth rwystro'r afiechyd rhag lledaenu ac wrth leihau cyfraddau marwolaeth ymhlith cleifion mewn cartrefi gofal. Gall hefyd helpu i sicrhau parhad busnes drwy leihau achosion o salwch ymhlith staff yn sgil fflw, a lleihau'r angen am staff locwm yn eu lle.

Bydd cyllid ar gyfer y rhaglen ar gael drwy'r contract fferylliaeth gymunedol presennol, a hwnnw wedi'i addasu'n ddiweddar er mwyn helpu i gomisiynu gwasanaethau ychwanegol. Bydd cyllid newydd o £112,800 yn cael ei neilltuo i dalu am gostau caffael y brechlyn.

**Argymhelliad 3. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod trefniadau ar gael i werthuso pa mor effeithiol yw holl ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag iechyd dros y gaeaf, gan gyhoeddi'r gwersi a ddysgir yn fuan. Dylai hefyd sicrhau bod trefniadau ar gael i sicrhau bod yr holl system yn dysgu o'r gwaith gwerthuso hwn.**

Gallwn gadarnhau i ymchwil cymdeithasol gael ei gynnal gan Beaufort Omnibus, sefydliad ymchwil annibynnol sydd wedi hen ennill ei blwyf a sefydliad sy'n arbenigo mewn cynnal ymchwil marchnad ac ymchwil gymdeithasol. Mae ganddo brofiad helaeth o ddarparu ymchwil cymdeithasol o ansawdd da i'r sector cyhoeddus. Cafodd yr ymchwil a gynhaliwyd gan Beaufort Omnibus ei seilio ar 1,000 o gyfweiliadau gydag oedolion 16+ oed yng Nghymru i fesur eu hymwybyddiaeth o'r ymgyrch gyfathrebu ac effaith yr ymgyrch honno. Ceir hefyd nifer o ffynonellau gwerthuso presennol a fydd yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant yr ymgyrch wrth ddarparu'r canlyniadau a fwriadwyd. Dyma'r rhain:-

- Y cyfryngau – lefel y sylw yn y cyfryngau gan gynnwys cyhoeddiadau gan randdeiliaid a'r cyfryngau arbenigol;
- Y cyfryngau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol - nifer y trawiadau ar wefannau / ymweliadau â gwefannau a'r nifer sy'n lawrlwytho deunydd ac yn rhyngweithio ar Twitter; a

- Sianeli partneriaid – partneriaid sy'n rhoi sylw i negeseuon yr ymgyrch a'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn eu rhannu ar eu sianeli eu hunain, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

Cynhaliwyd gwerthusiad ym mis Mawrth 2018 a rhoddodd hyn wybodaeth am yr ymgyrch gyfathrebu 'Dewis Doeth'. Gellir gweld o ddata am y gwasanaethau a ddewisir bod mwy o waith o hyd i'w wneud wrth sicrhau bod y cyhoedd yn dewis y gwasanaeth cywir i'w hanghenion. Wrth rannu'r data yn ôl anhwylderau, gwelwyd y dylai ymgyrchoedd y dyfodol ganolbwyntio ar anhwylderau penodol. Er enghraifft, er ei bod yn ymddangos bod pobl sydd â'r ddannodd yn gwybod y dylent fynd i weld y deintydd, nid yw pobl yn gwybod cystal pa wasanaeth i'w ddefnyddio pan fydd plentyn yn sâl, a gellid targedu hyn. Dangosodd yr ymchwil i'r ymgyrch gael rhywfaint o effaith ar ddewisiadau cadarnhaol ynghylch gwasanaethau, a bydd yr hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad hwn yn cael ei ddefnyddio a'i ymgorffori wrth gynllunio drwy gydol y flwyddyn yn y dyfodol, gan gynnwys yr ymgyrch ar gyfer y gaeaf nesaf.

Mae mwy o wybodaeth am newid ymddygiad hefyd wedi'i rannu â'n tîm Cyfathrebu o Optometreg Cymru ac Iechyd Deintyddol Cyhoeddus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio yn sail ar gyfer ein hymgyrch a'n gwaith i gynllunio ar gyfer gwrthsefyll pwysau yng ngaeaf 2018/19.

Mae canolfan gyfathrebu GIG Cymru wedi trefnu sesiwn i edrych yn ôl ar y gwaith cyfathrebu ar gyfer ymgyrch 2017-18, ac wedi cytuno i gynnal gweithdy ym mis Gorffennaf neu fis Awst pan fydd yn defnyddio'r ymchwil a'r dadansoddiad o newid ymddygiad i gynllunio'r gwaith cyfathrebu ac i helpu i gynllunio at y gaeaf yn y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yng nghynllun cyfathrebu Dewis Doeth/gwrthsefyll pwysau yn y gaeaf, sef cynllun a gaiff ei ddatblygu dros yr haf.

**Argymhelliad 7. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ystyried, a hynny'n ddiymdroi, yr angen am well hyfforddiant, datblygu sgiliau a goruchwyliaeth drwy'r holl sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng y sectorau wrth wneud hyn.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyngor Gofal Cymru i hyrwyddo a chynnal safonau uchel wrth hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol, ac o ganlyniad mae ganddo rôl bwysig wrth ddatblygu a sicrhau ansawdd hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r Cyngor Gofal yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cyfres o gymwysterau newydd i weithwyr yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a'r rheini i'w rhoi ar waith yn 2019. Bydd y gyfres newydd hon o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi pecyn cynhwysfawr o addysg a dysgu parhaus sy'n galluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i wneud cynnydd drwy eu gyrfaedd. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu ymgyrch farchnata, recriwtio a chadw staff er mwyn creu delwedd gadarnhaol o swyddi yn y maes gofal cymdeithasol.

Newidiodd y Cyngor Gofal i ddod yn Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Ebrill 2017 a bydd yn defnyddio cyfuniad grymus o swyddogaethau i wella gwasanaethau a'r

gweithlu sy'n darparu'r rheini. Un o'i dasgau cyntaf fydd paratoi at ehangu cofrestr y gweithlu er mwyn cynnwys gweithwyr gofal cartref, a hynny yn 2020. Bydd hyn yn golygu helpu'r gweithlu i gyflawni'r lefel berthnasol o gymwysterau gan ddefnyddio cyllid o'r grant datblygu gweithlu sylweddol sydd wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru i'r sector.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant blynyddol o £8m i'r sector gofal cymdeithasol er mwyn helpu i hyfforddi a datblygu staff. Mae'r grant ar gael yn sgil y cynlluniau hyfforddi a datblygu rhanbarthol y mae'r partneriaethau gweithlu rhanbarthol wedi'u creu. Mae'r partneriaethau rhanbarthol yn golygu bod modd i awdurdodau lleol a'r sector annibynnol gydweithio i ddatblygu'r gweithlu.

Mae fframwaith datblygu sgiliau a gyrfaoedd ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd clinigol wedi'i ddatblygu i'r GIG. Diben y fframwaith hwn yw rhoi dull o lywodraethu ar gyfer datblygu sgiliau a gyrfaoedd y gweithlu Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn GIG Cymru. Bydd yr adnodd hwn yn berthnasol i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn y meysydd nyrsio, bydwreigiaeth, a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Bydd yn helpu i ddatblygu swyddi presennol ac yn y dyfodol drwy safoni cwrpas swyddi a datblygu llwybrau addysg sy'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i ymarfer yn ddiogel. Bydd y fframwaith hwn yn hwb i yrfaoedd Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ac yn gwella pa mor broffesiynol yw'r gweithlu craidd hwn, gan ddatblygu ar y gwasanaeth o ansawdd da sydd eisoes yn cael ei ddarparu i unigolion. Rydym yn ystyried integreiddio'r fframwaith hwn gyda'r fframwaith sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer staff gofal cymdeithasol.

Bydd fframwaith dysgu a datblygu tebyg ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol mewn Gofal Cymdeithasol wedi'i greu i gyd-fynd â'r holl fframweithiau eraill sy'n bodoli, gan gynnwys fframwaith Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd y GIG, "Modernising Allied Health Professional Careers in Wales", y fframwaith Llwybr Gyrfa ac Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus i weithwyr cymdeithasol, a'r fframwaith gyrfa cyffredinol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Mae'r fframwaith yn ddogfen a gafodd ei chreu ar y cyd o dan arweiniad Alison Strobe, cyn-Brif Gynghorydd Therapiau Cymru, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd y fframwaith yn adnodd defnyddiol i gyflogwyr er mwyn gweld sut y gellir defnyddio sgiliau therapyddion galwedigaethol orau wrth ateb eu hanghenion penodol, yn enwedig wrth inni ddatblygu gweithlu hyblyg mewn system iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig.

Mae nifer o ddogfennau canllaw wedi'u cyhoeddi er mwyn hwyluso cyd-hyfforddi a chydweithio rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol, a hynny er budd cleifion a chleientiaid. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar ddirprwyo i drydydd partion a chanllawiau ar fwydo drwy endosgopi.

Mae byrddau iechyd wedi sefydlu fforymau metronau gofal cartref er mwyn helpu i ddysgu a datblygu yn y sector hwn. Mae nifer o fyrddau iechyd hefyd wedi rhoi gwahoddiadau agored i staff gofal cartref i ddefnyddio rhaglenni hyfforddiant mewnol y byrddau iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dwy set o reoliadau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a'r rheini'n ceisio atal y potensial i gamddefnyddio contractau oriau heb eu gwarantu yn y maes gofal cartref. Roedd y rheoliadau cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofal cartref gyhoeddi manylion am drefniadau contract eu staff (gan gynnwys contractau oriau heb eu gwarantu) yn eu hadroddiadau blynyddol cyhoeddus. Serch hynny, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oedd gofyn am dryloywder yn sicrhau newid ymddygiad ynddo'i hun, ac y gallai rhai cyflogwyr barhau i ddefnyddio contractau o'r fath mewn ffyrdd sy'n niweidiol i'w staff. O ganlyniad, datblygwyd cyfres bellach o reoliadau gennym a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnig dewis o gontract i'w staff (contract oriau sefydlog neu barhau â chontract dim oriau) ar ôl cyfnod o dri mis o weithio. Roedd y rheoliad hwn yn ymateb i alwadau gan randdeiliaid, gan gynnwys rhai gweithwyr, am gadw'r hyblygrwydd y gall contractau o'r fath ei roi, ond gwneud hyn yn opsiwn yn hytrach na'r norm.

Daeth y cyfresi hyn o reoliadau i rym ym mis Ebrill 2018. Disgwyliwn i ddarparwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer 2018-19 gwblhau'r gyfres gyntaf o wybodaeth flynyddol erbyn diwedd mis Mai 2019. Bwriadwn adolygu effaith y ddeddfwriaeth maes o law i weld a yw'r cynigion wedi cyflawni'r amcanion a fwriadwyd, gan edrych ar yr adroddiadau blynyddol newydd i ddeall i ba raddau y mae darparwyr gofal cartref yn defnyddio contractau dim oriau.

### **Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog wneud a chyhoeddi trefniadau i rannu arferion da mewn ffordd strwythuredig mewn perthynas â chynlluniau llwyddiannus sy'n cael eu darparu drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol.**

Drwy gyfres o ddigwyddiadau penodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod gan ranbarthau gyfle i rannu'r arferion gorau o ran cynlluniau sy'n cael eu datblygu drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Bu gwaith yn mynd rhagddo hefyd i rannu gwybodaeth ac arferion da yn fwy anffurfiol, a hynny'n uniongyrchol rhwng y rhanbarthau a swyddogion yn Llywodraeth Cymru. Er nad ydym yn derbyn bod angen cyhoeddi'r trefniadau'n ffurfiol, byddwn yn parhau i hyrwyddo diwylliant o rannu arferion gorau drwy'r canllawiau diwygiedig a gaiff eu cyhoeddi cyn hir ar gyfer y byrddau partneriaeth rhanbarthol, a hynny er mwyn helpu i ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig a drwy ragor o ddigwyddiadau cenedlaethol.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'r Gronfa Gofal Integredig. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw'r Gronfa yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Bydd adroddiad cenedlaethol terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2019, a hwnnw'n cyflwyno'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion drwy Gymru.

Er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau ac osgoi dyblygu gwaith, mae'r Gweinidog wedi penderfynu na fydd adolygiad arfaethedig sydd i'w gomisiynu gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig yn cael ei gynnal tan y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad yntau. Bydd unrhyw adolygiad a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru yn datblygu ar ganfyddiadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ac o bosibl yn edrych yn fanylach ar y rhain.

At hynny, yn y gynhadledd gofal sylfaenol cenedlaethol ym mis Tachwedd 2017, lansiodd adnodd cenedlaethol i rannu dysgu arloesol ac arferion da o bob rhan o Gymru a hynny mewn ffyrdd newydd a gwell er mwyn rhoi'r gofal iawn ar yr adeg iawn o'r ffynhonnell iawn yn y cartref neu'n agosach at gartref.

Bydd y Pwyllgor yn gwybod ein bod yn awyddus i'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fesur effaith cynlluniau neu fodolau gofal lleol a chenedlaethol, gan rannu arferion da mewn ffordd systematig drwy Gymru. Pan fydd hynny'n briodol, dylid rhoi'r arferion hyn ar waith yn eang a'u defnyddio ar raddfa fwy er mwyn ateb anghenion cleifion. Mae cynnydd yn cael ei wneud ac yn ogystal â'r uchod, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys wedi sefydlu is-grŵp, sef y Grŵp Cynllunio, Datblygu a Gwerthuso.

Diben y Grŵp hwn yn wreiddiol oedd rhoi cyngor a sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch a oes trefniadau effeithiol wedi'u sefydlu i gyflawni amcanion y Pwyllgor, gan helpu i gynllunio, datblygu a gwerthuso. Mae'r elfen o werthuso yn cynnwys sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau neu 'gynnyrch' yn cael eu gwerthuso'n gadarn, ac wedi'u seilio ar waith ymchwil a datblygu credadwy – gan rannu unrhyw wersi a ddysgir a thystiolaeth. Fel rhan o'n gwaith i rannu a lledaenu arloesi llwyddiannus ac arferion da, mae cylch gwaith y grŵp wedi'i ehangu i helpu'r gwaith cenedlaethol a wneir fel rhan o ofal heb ei drefnu i werthuso arloesi mewn ffordd safonol a chyson.

**Argymhelliad 9. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog egluro'r sefyllfa ynghylch rhoi cyllid hirdymor i gynlluniau llwyddiannus o dan y Gronfa Gofal Canolraddol. Dylent hefyd amlinellu'n glir sut y bydd y buddsoddiad ychwanegol yn y Gronfa fel rhan o gyllideb ddrafft 2017-18 yn cael ei ddefnyddio, a beth fydd yr effaith ddisgwyliedig.**

Ers ei sefydlu yn 2014, mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi cael ei defnyddio i ddatblygu modelau newydd ac arloesol ar gyfer gweithio'n integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, y maes tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Yn y flwyddyn ariannol hon, mae cyllid o £50 miliwn wedi'i roi i barhau i gefnogi ystod eang o waith sy'n mynd rhagddo i osgoi derbyniadau i'r ysbyty yn ddiangen, osgoi derbyniadau i ofal preswyl yn ddiangen, ac osgoi oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty.

Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys ymrwymiad i gadw'r gronfa hon. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried yr amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer y gronfa yn y dyfodol, a byddwn yn sicrhau bod hyn yn eglur i'r rhanbarthau cyn y flwyddyn ariannol newydd.

Bydd y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn parhau i reoli'r gronfa bwysig hon. Maent hefyd yn gallu sicrhau bod partneriaid yn defnyddio cyllidebau a ffrydiau cyllido'n effeithiol, gan gynnwys y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Gofal Sylfaenol, er mwyn cydlynu'r modd y caiff cyllid ei wario a sicrhau'r buddion gorau posibl i ddinasyddion wrth ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

Cafodd cwmpas y Gronfa Gofal Integredig ar ei newydd wedd ei ehangu'n sylweddol y llynedd ac mae bellach yn cynnwys meysydd blaenoriaeth y bwrdd partneriaeth rhanbarthol ar gyfer integreiddio. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau i bobl hŷn, gwasanaethau i blant sydd ag anghenion cymhleth, gwasanaethau i bobl sydd ag anableddau dysgu a gwasanaethau i ofalwyr. Drwy wneud hyn, mae'r gronfa bwysig hon wedi dod yn fodd i gyflawni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus ganfyddiadau'r adolygiad sydd ar y gweill gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig, gan gynnwys pa mor effeithiol yw'r gwaith o brif ffrydio prosiectau'r Gronfa.

## **Elfennau'r Model Trawsnewidiol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol (y fersiwn y cytunodd y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol arno ym mis Mawrth 2018)**

Mae rhaglen i drawsnewid gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal cymunedol yn mynd rhagddi er mwyn gwella iechyd a llesiant pobl Cymru, gan ddatblygu ar y gwasanaethau rhagorol sydd eisoes yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol ledled y wlad. Mae'r model newydd yn edrych ar y system gyfan er mwyn ail-ddylunio gwasanaethau, gan seilio hynny ar safonau ansawdd cenedlaethol ond gyda'r hyblygrwydd i ymateb i anghenion cymunedol lleol (gweler y diagram yn Atodiad 1).

### **1. Egwyddorion y Model Trawsnewidiol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol**

Mae'r dinesydd yn ganolog i'r model newydd, gan gynnwys pobl o bob oed a demograffeg. Bydd hyn yn sicrhau bod y gofal iawn ar gael ar yr adeg iawn o'r ffynhonnell iawn, yn y cartref neu'n agosach at gartref. Mae'r model wedi'i seilio ar y canlynol:

- Datblygiadau i wasanaethau ar sail anghenion y boblogaeth, gyda chlystyrau gofal sylfaenol lleol yn arwain y gwaith cynllunio a thrawsnewid
- Hyrwyddo byw'n iach a dadfeddyginiaethu llesiant
- Pwyslais ar y boblogaeth fel sail i gynllunio a darparu gwasanaethau mewn cymunedau lleol
- System gofal sylfaenol fwy ataliol a rhagweithiol sydd wedi'i chydlynu'n well, a honno'n cynnwys darpariaeth ymarfer cyffredinol a gwasanaethau cymunedol drwy dimau adnoddau cymunedol neu wasanaethau eiddilwch
- Dull system gyfan drwy integreiddio gwasanaethau iechyd, gwasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau'r sector gwirfoddol, wedi'i hwyluso gan gydweithio ac ymgynghori
- Gofal holistaidd i ddinasyddion sy'n ymgorffori llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol, gyda chysylltiad rhwng hynny â dewisiadau byw'n iach
- Gofal integredig wedi'i symleiddio ar sail 24/7, gan ganolbwyntio ar y cleifion mwyaf sâl y tu allan i oriau
- Mwy o wydnwch cymunedol drwy rymuso dinasyddion a rhoi mynediad i ystod o asedau cymunedol
- Cyngor a chymorth ar gael i helpu pobl i fod yn iach, gyda mynediad rhwydd i wasanaethau gofal lleol pan fydd angen y rheini ar bobl
- Arweinyddiaeth amlbroffesiwn cryf ar draws sectorau ac asiantaethau i wella ansawdd
- Atebion technolegol i wella pa mor hygyrch yw gwybodaeth, cyngor a gofal a chymorth ar gyfer hunanofal

### **2. Cyhoedd gwybodus**

Er mwyn llwyddo, mae'n hanfodol rhannu dealltwriaeth ynghylch yr achos dros newid, gan ddangos beth sy'n dda ac esbonio'r manteision. Mae angen gwybodaeth, addysg, cymhelliad ac ysbrydoliaeth ar y cyhoedd er mwyn cyflwyno newid diwylliannol a'u grymuso i berchnogi eu hiechyd eu hunain. Mae angen pwyslais cryf ar ofal sylfaenol a gofal cymunedol mewn strategaethau cyfathrebu, a hynny er

mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch y modelau newydd a datblygiadau i wasanaethau. Efallai y bydd angen dulliau gwahanol er mwyn newid ymddygiad pan fydd gwahaniaethau diwylliannol rhwng ardaloedd daearyddol. Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall pwysigrwydd ysgwyddo cyfrifoldeb yn un o'r prif bethau a fydd yn galluogi newid yn y dyfodol. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn defnyddio dulliau ac ymyriadau byr gan gynnwys sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif er mwyn cael effaith ar ymddygiad a dewisiadau sy'n ymwneud â ffordd o fyw

### **3. Dinasyddion sydd wedi'u grymuso**

Mae cynnwys pobl wrth gynllunio'u gwasanaethau lleol, defnyddio adborth ynghylch profiadau defnyddwyr a rhoi rôl weithgar i bobl yn y broses newid i gyd yn gymorth i rymuso'r cyhoedd. Gall hyrwyddwyr lleol rannu gwerth arloesi mewn gofal sylfaenol a gofal cymunedol drwy eu profiadau cadarnhaol eu hunain. Mae technegau hyfforddi a chyfweld sy'n cymell pobl wedi bod yn effeithiol wrth eu helpu i newid eu hymddygiad. Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hannog i wneud dewisiadau gwybodus gyda'u gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

### **4. Cymorth ar gyfer Hunan-ofal**

Mae pobl yn cael cymorth i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain drwy wella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder. Mae hunanofal ac ysgwyddo cyfrifoldeb yn allweddol i drawsnewid pethau, ac mae'n golygu cynnwys pobl a gofawyr yn y penderfyniadau a wneir am ofal pobl, a rhoi ystod o adnoddau lleol i hyrwyddo hunanofal a hunangyfeirio. Mae technoleg glyfar yn gymorth wrth fonitro, rhoi hunanofal a chyfathrebu.

### **5. Gwasanaethau Cymunedol**

Mae'r model yn ymgorffori gallu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn ymarfer cyffredinol i gyfeirio pobl at ystod ehangach o wasanaethau a llwybrau cymunedol, gan roi'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf am iechyd a llesiant. Mae'r model hefyd yn cynnwys gofal a chymorth anghlinigol yn ogystal â gwasanaethau clinigol. Mae ystod gynyddol o opsiynau ar gyfer rhoi cymorth a chyngor yn cynnwys sgysiau gyda thimau iechyd lleol dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy alwadau fideo. Mae'r systemau wedi'u dylunio i helpu pobl i wneud penderfyniadau a sicrhau bod y gweithiwr proffesiynol neu'r gwasanaeth gorau ar gael pan fydd angen hynny. Gellir defnyddio adnoddau cymunedol drwy hunangyfeirio neu drwy frysbenno dros y ffôn, a hynny ar ffurf dull presgripsiynu cymdeithasol, gan ddefnyddio Gweithwyr Cyswllt, Presgripsiynwyr Cymdeithasol a thechnoleg er mwyn helpu i gyfeirio pobl. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau lleol hyn yn hygyrch, yn gynaliadwy ac yn ateb anghenion y gymuned.

### **6. Gweithio mewn clwstwr**

Mae cyflogi staff i weithio mewn clystyrau yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn sicrhau bod y boblogaeth leol yn gallu manteisio'n rhwydd ar arbenigedd glinigol, arbenigedd gymdeithasol ac arbenigedd rheolwyr. Bydd timau clwstwr yn recriwtio gweithwyr proffesiynol gan gynnwys fferyllwyr, ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol, parafeddygon, cymdeithion meddygol, therapyddion galwedigaethol, cwmselwyr iechyd meddwl, dietegwyr, gweithwyr y trydydd sector ac aelodau eraill o staff awdurdodau lleol er mwyn cynyddu capasiti wrth reoli anghenion y boblogaeth leol o ddydd i ddydd.



## Atodiad B

Mae sefydlogrwydd ymarfer cyffredinol yn ganolog i'r model newydd ac mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd lleol yn gynaliadwy ac yn gallu ymateb i alwadau'r dyfodol. Mae cefnogaeth leol gan y byrddau iechyd yn helpu i sefydlogi practisau meddygon teulu bregus a bydd cynllunio'r gweithlu lleol yn effeithiol yn sicrhau cynaliadwyedd y rhain yn y tymor hwy.

Mae timau clwstwr yn cael gwared ar y rhwystrau artiffisial mewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol lleol er mwyn hyrwyddo gofal integredig sy'n cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth leol. I hwyluso gweithio integredig a newid diwylliannol, ceir contractau ar y cyd, sesiynau i rannu gwersi a ddysgir, cydleoili staff a chyfleoedd i weithwyr proffesiynol symud o un sector i'r llall. Mae datblygiad y gwahanol fodelau sy'n hyrwyddo cydweithio mewn clystyrau, fel Ffederasiynau, Mentrau Cymdeithasol a Chanolfannau Gofal Sylfaenol yn cyd-fynd â'r dull aml-broffesiwn integredig hwn.

### **6. Brysbennu Clinigol / Systemau Ffôn yn Gyntaf mewn Ymarfer Cyffredinol**

Mae systemau brysbennu clinigol a systemau i delio'n ddiogel ac yn effeithiol â galwadau cychwynnol mewn gofal sylfaenol yn ceisio cyfeirio pobl at y gwasanaeth neu'r gweithiwr proffesiynol mwyaf addas, gan symud oddi wrth y system bresennol lle bydd meddygon teulu yn gweld y rhan fwyaf o gleifion i ddechrau. Mae cyngor dros y ffôn yn addas i gyfran uchel o anghenion pobl, ac os bydd gweithiwr proffesiynol profiadol yn rhoi'r cyngor hwnnw, gall hyn leihau nifer yr ymgynghoriadau wyneb yn wyneb mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Mae gan y model ffôn yn gyntaf hwn, sy'n ymgorffori delio â galwadau (neu lywio gofal) a brysbennu clinigol, y potensial i gyfeirio pobl y tu hwnt i'r gweithwyr proffesiynol amrywiol sy'n gysylltiedig â'r meddyg teulu.

Mae'r model ffôn yn gyntaf / brysbennu hefyd yn golygu sicrhau bod modd i bobl gael y gofal iawn gan y gwasanaeth iawn yn brydlon, gan gyfeirio pobl at y canlynol:

- Gweithwyr clinigol proffesiynol sydd wedi'u hintegreiddio yn y tîm clwstwr aml-broffesiwn lleol, gan gynnwys gweithwyr optometreg a deintyddol proffesiynol er mwyn rheoli problemau llygaid, dannedd ac iechyd y geg; fferyllwyr cymunedol i reoli anhwylderau cyffredin a phroblemau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau; a ffisiotherapyddion i reoli problemau cyhyrsgerbydol
- Gwasanaethau anghlinigol cymunedol pan fydd hynny'n briodol, gyda gweithwyr cyswllt neu bresgripsiynwyr cymdeithasol sydd wedi'u hintegreiddio yn y tîm aml-broffesiwn lleol yn helpu i atgyfeirio

### **Gofal 111 a'r tu allan i oriau**

Mae'r gwasanaeth 111 ar ei newydd wedd yn sicrhau bod pobl sydd ag anghenion brys yn y cyfnod y tu allan i oriau yn cael eu rheoli'n briodol, gyda systemau cyfathrebu da i sicrhau bod timau proffesiynol yn gallu gweld y cofnodion clinigol diweddaraf. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhoi gofal di-dor yn ystod oriau a'r tu allan i oriau, yn enwedig i gleifion sydd ag anghenion cymhleth ac/neu ar ddiwedd eu hoes.

Mae 111, gyda chymorth cyfeirlyfr rhithiol cenedlaethol o wasanaethau, hefyd yn gweithredu fel dull o bresgripsiynu cymdeithasol er mwyn cyfeirio pobl at wasanaethau lleol a ffynonellau cymorth ar sail 24/7.

## **8. Mynediad uniongyrchol**

Gall pobl ddefnyddio ystod o wasanaethau iechyd lleol yn uniongyrchol, gan gynnwys: fferyllwyr cymunedol i gael cyngor a thriniaeth am ystod o anhwylderau cyffredin; optometryddion i roi cyngor ac i drin problemau llygaid cyffredin a brys; deintyddion i drin y ddannodd ac iechyd y geg; ffisiotherapyddion i drin problemau cyhyrsgerbydol; ac awdiolegwyr i drin problemau clyw. Efallai na fydd rhai o'r gwasanaethau hyn ar gael ym mhobman ar hyn o bryd, ond maent yn datblygu ac yn cael eu trawsnewid dros gyfnod o amser.

## **9. Pobl sydd ag anghenion gofal cymhleth**

O ganlyniad i frysbenneu effeithiol a mwy o weithio mewn clystyrau amlddisgyblaeth, mae gan feddygon teulu ac uwch ymarferwyr fwy o amser i fod yn rhagweithiol wrth ofalu am bobl sydd ag anghenion mwy cymhleth yn y cartref neu yn y gymuned - sef yn aml yr henoed sydd â chyd-afiacheddau. Mae angen amser ymgynghori sylweddol hwy i asesu, cynllunio a chydlynu gofal a rag-gynllunnir.

Gall timau adnoddau cymunedol, timau eiddilwch neu dimau integredig lleol eraill roi gofal di-dor i bobl sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ill dau. Gall dull system gyfan, aml-broffesiwn weithio'n well i reoli problemau cymhleth sy'n deillio o broblemau'n ymwneud â lles, tai a chyflogaeth. Mae'r tîm clwstwr hefyd mewn sefyllfa dda i helpu gyda gofal pobl sydd â salwch difrifol mewn Wardiau Rhithiol a Chanolfannau Cymunedol, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr arbenigol i ofalu am y rheini a fyddai fel arall yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac yn wynebu risg o golli'u hannibyniaeth. Gall timau cymunedol hefyd helpu i ryddhau pobl yn gyflym o'r ysbyty.

Mae'r model amlddisgyblaethol holistaidd hwn felly yn rhoi dull mwy rhagweithiol ac ataliol o ddarparu gofal, gan reoli pobl yn gynt ar eu llwybrau gofal pan fyddant yn ymateb yn well i addysg a chymorth i roi hunanofal. Y canlyniad yw gwell canlyniadau a phrofiadau i bobl a'u gofalwyr.

Mae gan y model hwn y potensial i ddarparu ystod ehangach o ofal wedi'i gynllunio yn y gymuned, gan gynnwys apwyntiadau a thriniaethau i gleifion allanol, a phroffion diagnosteg. Gallai hyn hefyd leihau nifer yr atgyfeiriadau i ofal eilaidd a derbyniadau ar gyfer gofal heb ei drefnu, gan alluogi staff ysbytai i ganolbwyntio'u hadnoddau ar bobl sâl iawn a gofal arbenigol sydd wedi'i gynllunio.

## **10. Seilwaith i helpu gyda'r broses drawsnewid**

Mae angen seilwaith sy'n addas i'w ddiben yn gefn i'r model ar gyfer trawsnewid gofal sylfaenol, a hwnnw wedi'i gynllunio i helpu pobl i weithio mewn timau amlddisgyblaeth. Mae angen i gyfleusterau iechyd lleol, gwasanaethau gwybodeg a systemau ffôn fod yn hyblyg a rhaid iddynt allu ymateb i newidiadau yn y dyfodol, gan helpu gyda gwaith aml-broffesiwn ac elfennau ffôn yn gyntaf/brysbenneu. Mae angen i opsiynau digidol i ofyn am ofal ac i gael gofal fod yn gyffredin. Mae'n hanfodol rhoi mynediad uniongyrchol i wasanaethau diagnosteg yn y gymuned, a hynny gan glinigwyr clwstwr, er mwyn darparu gofal o ansawdd da yn agosach at gartref.

## **11. Y canlyniadau disgwylidig**

## Atodiad B

Mae ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol, ochr yn ochr â'r dystiolaeth sy'n deillio o'r Rhaglen Pennu Cyfeiriad, yn dangos manteision posibl y model trawsnewidiol ar gyfer gofal sylfaenol a gofal cymunedol:

- Gwell iechyd a llesiant ymhlith dinasyddion
- Mwy o wydnwch cymunedol
- Gwell ysbryd, cymhelliant a llesiant ymhlith ymarferwyr
- Mwy o recriwtio a chadw staff gofal sylfaenol a staff cymunedol
- Modelau gofal cynaliadwy

## Atodiad 1

